

## Planhigion Fasgwlar

---

Mae planhigion yn sylfaenol i bob agwedd o'n bywydau, o'r aer a anadlwn i'n bwyd, dillad, meddyginiaethau a mwy. Maent hefyd yn cefnogi'r mwyafrif helaeth o rywogaethau eraill, ac fel arfer dyma'r dull yr ydym yn dosbarthu, diffinio ac isrannu ecosystemau a chynefinoedd. Ac eto cânt eu diystyrru yn aml: yn fyd-eang, amcangyfrifir fod dau mewn pump planhigion dan fygythiad difodiant.<sup>1</sup> Dim ond 10% o blanhigion a gafodd eu hasesu'n ffurfiol ac mae'r asesiadau hyn yn dangos tueddiad sylweddol tuag at rywogaethau 'defnyddiol'. Mae rhai o'r teuluoedd planhigion mwyaf cyfoethog o ran rhywogaethau, tebyg i'r *Asteraceae* ac *Orchdaceae* ymysg y rhai a gaiff eu tangynrychioli fwyaf ar y Rhestr Goch Fyd-eang.<sup>1</sup>

Mae'n anodd crynhoi yr amrywiaeth planhigion sydd ar gael yng Ngwent Fwyaf. O ystyried ei bod yn5 ardal cymharol fach, mae amrywiaeth enfawr o gynefinoedd (coetiroedd, dolydd, ucheldir, gwlypdir) ar amrywiaeth fawr o briddoedd, uchderau ac agweddau. Yng Ngwent Fwyaf mae un o'r coed hynaf yng Nghymru, Ywen Mamhilad (y credir ei bod rhwng 2,000 a 3,000 mlwydd oed a gyda chwmpas dros 35tr) ac un o blanhigion blodeuol lleiaf y byd, y Llinas Diwraidd (*Wolffia arrhiza*), sydd i'w gael yn ffosydd Gwastadeddau Gwent.

Mae gan Went ddwy ardal bwysig o ran planhigion (IPA). Caiff IPA Dyffryn Gwy, ar hyd y ffin gyda Lloegr, ei hadnabod am gyfoeth eithriadol planhigion fasgwlar mewn coetir llydanddail.<sup>3</sup> Mae'r coetiroedd amrywiol hyn yn cefnogi poblogaethau o Genhinen Pedr frodorol Cymru (*Narcissus pseudonarcissus*), a Berwr Chwerw Culddail (*Cardamine impatiens*) prin, Clychys Ymledol a (*Campanula patula*) a Llaethlys Tyndyrn (*Euphorbia serrulate*). Mae creigiau IPA Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymestyn i Gwent Fwyaf ac yn cynnwys Cwm Clydach, Pwlldu a sawl crib o'r Mynydd Du. Dynodwyd y creigiau ar gyfer y poblogaethau endemig o'r Gerddinen Wen (*Sorbus*) a'r Heboglys (*Hieracia*).<sup>4</sup>

Mae cofnodion planhigion yng Ngwent Fwyaf yn ddyledus iawn i waith Trevor Evans MBE, cyn gofnodydd sirol Cymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon (BSBI), a dreuliodd 20 mlynedd yn paratoi *Flora of Monmouthshire*<sup>5</sup>, atlas cynhwysfawr yn disgrifio dros 1,800 rhywogaeth sydd ar gael yng Ngwent. Mae'r gwaith anhygoel hwn yn parhau'n llyfr cyfeirio hanfodol ar gyfer pob botanegwr lleol. Mae Grŵp Botaneg Sir Fynwy, y grŵp BSBI lleol, yn weithgar ac yn trefnu cyfarfodydd maes rheolaidd. Mae cofnodwyr sirol lleol y BSBI hefyd yn paratoi Cofrestr Planhigion Prin, sy'n rhestru rhywogaethau prin lleol ( $\leq 3$  safle mewn is-sir) a rhywogaethau anfyfych ( $\leq 10$  safle mewn is-sir), yn ogystal â phlanhigion yr ystyrir eu bod dan fygythiad yng nghyd-destun Cymru neu Brydain Fawr. Mae Cofrestr Planhigion Prin is-sir 35 yn rhestru 283<sup>6\*</sup> rhywogaeth; mae cofrestr is-sir 41 yn cofrestru 302<sup>7</sup> rhywogaeth

Yn *Flora of Monmouthshire* mae Evans yn nodi llawer o'r newidiadau sy'n effeithio ar ddsbarthiad a niferoedd planhigion o fewn Gwent. Mae hyn yn cynnwys colli dolydd, gwrychoedd ac ymylon ffyrdd cyfoethog mewn rhywogaethau. Mae'n priodoli'r colledion mewn amrywiaeth planhigion, a'u heffaith ar rywogaethau eraill, i nifer o ffactorau yn cynnwys newidiadau mewn amaeth, yn arbennig ddefnydd plaladdwyr a chwynladdwyr, a cholli pentiroedd, draenio gwlypdiroedd, cyflwyno planhigion addurnol heb fod yn frodorol a gor-awydd am 'daclusrwydd'.<sup>5</sup>

Mae nifer o gynlluniau cofnodi ar gyfer planhigion. Bu'r BSBI yn casglu cofnodion ar blanhigion ers 1836 ac mae ar fin cyhoeddi'r trydydd *Atlas of British and Irish Flora*. Mae'r BSBI hefyd yn


cyfarwyddo arolygon wedi eu targedu, megis y Prosiect Planhigion dan Fygythiad, drwy eu haelodau leol.<sup>8</sup> Er fod y casgliad presennol o gofnodion yn eithriadol, nid yw'n gallu penderfynu tueddiadau mewn niferoedd. I fynd i'r afael â hyn cafodd cynllun cofnodi newydd, Cynllun Cenedlaethol Monitro Planhigion (NPMS), ei lansio gan BSBI, UKCEH, Plantlife a'r JNCC yn 2015.<sup>9</sup>

Mae'r NPMS yn seiliedig ar sgwariau 1km, a ddyrannwyd ar sail ar hap wedi ei bwysoli er mwyn cynrychioli gwahanol gynefinoedd ar draws y Deyrnas Unedig.<sup>9</sup> Mae'r defnydd o fewn ardal yr astudiaeth yn dda iawn (96%), gyda dim ond un sgwâr heb ei fabwysiadu. Mae cynlluniau cofnodi planhigion eraill yn cynnwys y Great British Wildflower Hunt gan Plantlife, sy'n annog chwilio am rywogaethau neilltuol; Every Flower Counts (hefyd Plantlife), arolygu blodau gwyllt a pheillwyr ar lawntiau a'r BSBI Garden Wildflower Hunt, sy'n canolbwyntio ar flodau gwyllt mewn gerddi.

Mae'r adran hon yn rhoi sylw i ddim ond pedair stori am blanhigion; blodau gwyllt âr (fel grŵp), y Clychlys Ymledol, y Tegeirian Llydanwyrdd Bach (*Platanthera bifolia*) a Thegeirian y Waun (*Anacamptis morio*). Er mai dim ond sampl fach o amrywiaeth gyfoethog y planhigion yng Ngwent Fwyaf yw hyn, y maent yn dangos y dirywiad enfawr mewn rhai rhywogaethau o blanhigion a'r bygythiadau parhaus a wynebant.

\*daw'r ffigur hwn o restr 2007. Diweddarwyd hyn gan restr <sup>10</sup>; gall union nifer y rhywogaethau fod wedi newid wrth i rywogaethau gael eu tynnu a'u hychwanegu.

*Sgwariau NPMS o fewn ardal yr astudiaeth (pinc – wedi eu mabwysiadu, porffor, heb eu mabwysiadu)*



## Blodau Gwylt Âr

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws Cadwraeth:** Amrywiol, gweler islaw

**Data ar gael:** Gwael (303 cofnod)

**Cyd-destun:** Y gyfres hon o blanhigion blynyddol, sy'n ffynnu ar darfu cyson, yw'r elfen unigol sydd dan fwyaf o fygythiad o fflora y Deyrnas Unedig. Mae'r rhywogaethau hyn yn nodweddiadol o gaeau âr a thir arall a amaethwyd, gan rannu niche ecolegol planhigion y cnydau y maent yn tyfu yn eu mysg.<sup>11</sup> Gan fod cysylltiad mor agos rhyngddynt ag arferion ffermio âr traddodiadol, mae eu goroesiad yn dibynnu ar gadw amodau addas ar o leiaf rannau o rai ffermydd.



Julian Woodman

Credir fod llawer o'r rhywogaethau hyn yn gyflwyniadau hynafol, y daeth ffermwyr cynnar â nhw i Brydain gyda'r cnydau bwyd cyntaf. Mae mwy na 150 rhywogaeth o blanhigion yn y grŵp hwn ym Mhrydain,<sup>11</sup> ond oherwydd bod dosbarthiad rhywogaethau unigol yn dibynnu ar ddaeareg, math o bridd a hansawdd, efallai na fu llawer ohonynt yng Ngwent. Dangosir detoliad o rywogaethau perthnasol yn y tabl islaw.

Mae cyfuniad o ffactorau wedi arwain at ddirywiad blodau gwylt âr. Efallai mai datblygu technegau mwy effeithiol o lanhau hadau oedd un o'r cyntaf i gael effaith, efallai'n dechrau fwy na chanrif yn ôl. Mae rhesymau eraill yn cynnwys y cynnydd sylweddol yn y defnyddwyr o wrteithiau a chwynladdwyr, newidiadau mewn math o gnydau (megis i india corn a hadau olew) a defnyddio mathau modern o gnydau.

Yn *Flora of Monmouthshire*, mae Evans yn dweud: 'Modern agricultural methods, notably the widespread use of herbicides on crops, has spelt the demise of most 'weeds' of arable land in Monmouthshire, as elsewhere in the UK. The modern practice of autumn sowing, rather than spring sowing of cereal crops, has led to the ploughing of stubble soon after harvest.'<sup>5</sup>

Yn hanesyddol, byddai llawer mwy o ffermydd da byw na heddiw wedi bod ag o leiaf ardal fach o dir âr, a byddai ymylon y caeau wedi eu trin yn llai dwys. Mae caeau âr bach yn brin erbyn hyn, gan fod naill wedi eu hymestyn drwy gael gwared â therfyn caeau neu eu troi yn dir pori.

Enw Cyffredin	Enw Gwyddonol	Rhestr Goch 2005 <sup>13</sup>	Rhestr Goch Cymru 2007 <sup>26</sup>	Nifer cofnodion Gwent Fwyaf	Cofnod diwedd-araf
Gwlyddyn Glas	<i>Anagallis arvensis ssp foemina</i>	LC		2	1987
Llysiau Gwrid y tir âr	<i>Anchusa arvensis</i>	LC		10	2016

Camri'r Yd <sup>+</sup>	<i>Anthemis arvensis</i>	EN - (A2c)	EN	2	2010
Camri'r Cŵn	<i>Anthemis cotula</i>	VU - (A2c)	VU	55	2019
Crydwellt Bach	<i>Briza minor</i>	LC		4	2018
Pawrwellt Bach	<i>Bromus secalinus</i>	VU - (A2c)		13	2019
Glas yr Yd*	<i>Centaurea cyanus</i>	LC	CR	10	2019
Troed-yr-wydd Dail Masarn	<i>Chenopodium hybridum</i>	LC		6	2018
Triagl Arfog	<i>Erysimum cheiranthoides</i>	LC		8	2017
Corlaethlys	<i>Euphorbia exigua</i>	NT - A		14	2016
Llaethlys Llydanddail	<i>Euphorbia platyphyllos</i>	LC		1	1980–1994
Mwg y Ddaear Grymus	<i>Fumaria bastardii</i>	LC		1	2016
Y Benboeth Goch <sup>+</sup>	<i>Galeopsis angustifolia</i>	CR (A2c)	CR	3	1999
Eurflodyn	<i>Glebionis segetum</i>	heb ei restru		21	2019
Llewyg yr Iâr	<i>Hyoscyamus niger</i>	heb ei restru		6	2003
Melynydd Moel <sup>+</sup>	<i>Hypochaeris glabra</i>	VU - (A2c)		3	2004
Llysiâu Llywelyn	<i>Kickxia elatine</i>	LC		46	2019
Llysiâu Llywelyn Deilgrwn	<i>Kickxia spuria</i>	LC		8	2005
Marddanhadlen Goch Ddeilgron	<i>Lamium amplexicaule</i>	LC		1	2015
Pupurlus y Maes	<i>Lepidium campestre</i>	LC	VU	12	2014
Trwyn-y-Llo Lleiaf	<i>Misopates orontium</i>	VU - (A2c)		2	1988
Pabi Penwrychog	<i>Papaver argemone</i>	VU - (A2c)	EN	1	1992
Blodau Ymenyn yr Yd	<i>Ranunculus arvensis</i>	CR (A2c)	CR	5	1981
Dinodd Unflwydd	<i>Scleranthus annuus</i>	EN - (A2c)		1	2005
Briwlys y Tir Âr	<i>Stachys arvensis</i>	NT - A	VU	65	2019
Troed-y-Cyw Ymdaenol	<i>Torilis arvensis</i>	EN - (A2c)		1	1994
Trilliw	<i>Viola tricolor ssp tricolor</i>	NT - A	VU	2	2012

<sup>+</sup>Cofnodion heb eu dilysu

\*Anhawster yn gwahaniaethu rhwng poblogaethau gwyllt a phoblogaethau tir amaeth.

**Rhagolygon:** Mae cynlluniau amaeth-amgylchedd y gorffennol a'r presennol wedi cynnwys opsiynau sy'n ffafrio blodau gwyllt â'r drwy gefnogi amaethu ar ymylon caeau, cnydau grawn heb eu chwistrellu a sofl gaeaf. Fodd bynnag, ymddengys efallai na fu cymaint o ddefnydd o'r opsiynau hyn dan Glastir ag a oedd dan Tir Gofal, y rhaglen flaenorol. Bydd rhagolygon y dyfodol ar gyfer rhai o'r planhigion hyn yng Ngwent yn dibynnu ar fanylion y cynllun ffermio cynaliadwy sy'n cael ei llunio ar hyn o bryd.

Gellid disgwyl i ffermio organig roi rhai o'r amodau y mae blodau gwyllt â'r eu hangen drwy osgoi defnyddio chwynladdwyr a gwrteithiau artiffisial.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Cafodd cofnodion SEWBRc o'r 27 rhywogaeth a restrir yn y tabl eu dosbarthu'n eang ar draws Gwent ond gyda llai o'r gorllewin a'r gogledd, gan adlewyrchu tir uwch a diffyg cymharol tir ffermio â'r yno.

Fodd bynnag, o'r traean o'r mapiau islaw, sy'n dangos amrywiaeth cofnodion, gellir gweld mai ychydig iawn o sgwariau 1km (monadau) sydd â chofnodion o fwy na thri o'r rhywogaethau a restrir. Mae'r nifer fwyaf o sgwariau o'r fath yng ngogledd-ddwyrain Gwent lle mae sofl gaeaf yn dal ar gael, yn arbennig mewn gaeafau gwlyb pan mae'n anodd trin tir.

Soniodd Evans yn *Flora of Monmouthshire*, a gyhoeddwyd yn 2008, fod tri safle sy'n cefnogi Briwllys y Tir Âr a'r ddau rywogaeth o Lysiau Llywelyn: Kilpale ger Caerwent, Llantrisant yn Nyffryn Wysg a rhai caeau ceirch yn Hendre Ganol, i'r gorllewin o Drefynwy. (Fe wnaeth hefyd ganfod blodau gwyllt â'r prin eraill yn y caeau ceirch hyn). Mannau eraill lle mae cofnodion SEWBRc yn sôn am glystyrau o rywogaethau yw Rhiw Clytha, Llangofan, Llanddingad a Threowen. Mae nifer o gofnodion hyn yn Llanbradach yng ngorllewin Gwent a Dolydd Brockwells yn y de.


Mae'r mapiau'n dangos yr ymddengys fod canolfan ar y ffin gyda Swydd Gaerloyw, ond mae hyn mewn gwirionedd yn gamgymeriad yn deillio o briodoli cofnodion hyn amhenodol i ganol sgwariau. Mae cofnodion yr ymddengys eu bod o Aber yr Hafren yn ganlyniad cyfeiriadau grid anghywir.

Mae rhai amheuan am ddilysrwydd ychydig o gofnodion yn y tabl: ni chafodd y cofnodion ar gyfer y Benboeth Goch eu dilysu a gall rhai ar gyfer Glas yr Yd fod o blanhigion wedi eu trin.


Cyhoeddodd Plantlife adroddiad yn 2015<sup>12</sup> sy'n dynodi ardaloedd pwysig o ran planhigion â'r yn seiliedig ar sgwariau 2km (tetradau). Mae'r adroddiad yn defnyddio cofnodion o amrywiaeth o ffynonellau, yn cynnwys monitro blodau gwyllt â'r ar gyfer Tir Gofal rhwng 2009 a 2012. Canfuwyd fod gan is-sir Sir Fynwy lawer o detradau gyda chyd-ddigwyddiadau o dri o'r rhywogaethau a ddewiswyd yn yr adroddiad, a rhai gyda phump neu chwech. Fodd bynnag, mae'r rhywogaethau yma a ddetholwyd yn cynnwys Troellig yr Yd (*Spergula arvensis*) a Mintys yr Yd (*Mentha arvensis*), rhywogaethau sydd yn fwy cyffredin na'r rhai ar y rhestr uchod ac na chânt felly eu cyflwyno ynddo nac yn y mapiau yma. Ystyriwyd bod deg tetrad o bwysigrwydd cenedlaethol.


Y neges gref o adroddiad Plantlife oedd y byddai chwiliadau wedi eu targedu yn werth chweil yng Ngwent Fwyaf (is-sir Sir Fynwy a hefyd is-sir gyfagos Morgannwg). Gellir disgwyl i arolygon pellach ddatgelu presenoldeb rhai rhywogaethau o flodau gwyllt â'r lle cawsant eu cofnodi yn y gorffennol a rhai lleoliadau newydd.

Dosbarthiad cofnodion  
blodau gwyllt âr (uchafswm  
16 cofnod/km<sup>2</sup>)




Cofnodion blodau  
gwyllt âr yn ôl  
degawd





*Amrywiaeth cofnodion blodau gwyllt âr gydag ardaloedd pwysig ar gyfer planhigion âr (IAPA)<sup>12</sup>*

IAPA Pwysigrwydd Sirol  
 IAPA Pwysigrwydd Cenedlaethol




**Patrymau cynefin:** Mae cymunedau a rhywogaethau blodau gwyllt âr yn dangos teyrngarwch syndod o uchel i safleoedd neilltuol, yn gymaint felly y cafodd llawer o boblogaethau rhywogaethau prinnach eu cofnodi o gaeau neilltuol am ddegawdau neu hyd yn oed ganrifoedd.<sup>11</sup> Gall fod amrywiadau mawr mewn poblogaethau blodau gwyllt âr o ran amrywiaeth rhywogaethau o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar systemau rheoli cnydau a'r hinsawdd.<sup>11</sup> Nid yw blodau gwyllt âr o reidrwydd yn egino bob blwyddyn y caiff y tir ei amaethu a gall barhau'n segur a heb ei ganfod yng nghronfa hadau'r pridd am flynyddoedd lawer nes bod amodau yn addas.<sup>12</sup>

**Tueddiadau poblogaeth:** O'r 30 o rywogaethau planhigion fasgwlar a ddangosodd y dirywiad cymharol mwyaf ar draws Prydain rhwng cyfnodau cofnodi 1930–69 a 1987–99 yr *Atlas of British and Irish Flora*, mae 18 yn nodweddiadol o dir âr a thir arall a gaiff ei amaethu.<sup>11</sup> Caiff y lefelau hyn o ddirywiad eu dangos gan yr asesiad o statws bygythiad fflora planhigion fasgwlar Prydain yn *Vascular Plant Red Data List for Great Britain*,<sup>13</sup> a gyhoeddwyd yn 2006, ac arolygon atodol. Ni chaiff dim llai na 7 rhywogaeth eu hystyried fel bod wedi diflannu fel blodau gwyllt âr ym Mhrydain (er y gallant ymddangos yn achlysurol weithiau), a chaiff 54 rhywogaeth arall eu hystyried fel bod dan fygythiad.<sup>11</sup>

**Gwarchodaeth:** Nid yw'r rhan fwyaf o gofnodion o safleoedd a warchodir, fel y disgwylid o natur y gynefin. Fodd bynnag, mae rhai cofnodion o SSSI yn cynnwys Gwastadeddau Gwent, Dolydd Cwm Llanwenarth a Dol Brockwells. Mae cofnodion SSSI sydd hefyd yn SAC yn cynnwys ychydig o Aber yr Hafren, yr Afon Wysg, Safleoedd Ystlumod Brynbuga a Choetiroedd Dyffryn Gwy. (Mae'r rhai o Aber yr Hafren yn cynnwys rhai o fur y môr ond hefyd gyfeiriadau grid anghywir). Mae'r cofnodion NNR o Wlypdir Casnewydd.

*Cofnodion Blodau Gwyllt Âr o safleoedd a warchodir*





## Tegeirian y Waun *Anacamptis morio* (L.) (R.M. Bateman, Pridgeon & M.W. Chase)

**Gwarchodaeth:** Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (1981, fel y'i diwygiwyd)

**Statws Cadwraeth:** DAN BETH BYGYTHIAD (DU)<sup>13</sup>

**Data ar Gael:** Gwael (162 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae gan Degeirian y Waun sbigyn byr yn cario rhwng chwech a deuddeg o flodau. Maent fel arfer yn wahanol fathau o borffor, ond mae rhai blodau unigol hefyd gyda blodau pinc neu weithiau flodau gwyn. Mae gwythiennau gwyrdd neilltuol y sepalau ochrol yn neilltuol o glir yn y mathau goleuach. Mae'n blanhigion lluosflwydd sy'n atgynhyrchu drwy hadau.

Arferai'r rhywogaeth fod yn gyffredin ar lawr gwlad Cymru a Lloegr, gan fod yn fwyaf cyffredin yn ne a dwyrain Lloegr ac ardaloedd

arfordirol Cymru. Bu dirywiad sylweddol iawn ynddo ers y 1950au fel canlyniad i welliannau amgylcheddol, ac anaml y canfyddir ef yn awr heblaw mewn glaswelltiroedd a gaiff eu rheoli ar gyfer cadwraeth natur neu leoedd eraill, tebyg i fynwentydd, lle nad oes rheolaeth ddwys. Fel arfer caiff ei ystyried fel dangosydd cryf o hen laswelltiroedd heb eu gwella'n amaethyddol.<sup>14</sup>

Y mae, fodd bynnag, yn goddef ystod eang o gyflyrau pridd a systemau rheoli. Mae'r priddoedd lle'i canfyddir yn amrywio o sylfaen cyfoethog i sylfaen tlawd ac o sych i laith, tra bod rheolaeth yn amrywio o reolaeth caeau gwair traddodiadol i borfa. Gall planhigion barhau mewn cyflwr llystyfol am flynyddoedd lawer os caiff y fflurgeinciau eu tynnu drwy dorri gwair neu bori; maent maes o law yn blodeuo ac yn ffrwytho pan gaiff y pwysau hwn ei ryddhau.<sup>14</sup>

**Rhagolygon:** Er y bu gostyngiad enfawr ym mhoblogaeth y Deyrnas Unedig, gellid yn awr ystyried ei fod yn gymharol sefydlog. Mae hyn oherwydd fod llawer o'r poblogaethau sydd ar ôl i'w cael o fewn gwarchodfeydd natur neu laswelltiroedd eraill a gaiff eu rheoli'n benodol ar gyfer cadwraeth natur. Mae hyn yr un mor wir yng Gwent, lle mae nifer o boblogaethau, yn cynnwys y ddau fwyaf, yng ngofal Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent.


**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae Evans<sup>5</sup> yn dyfynnu Wade<sup>15</sup> a ddywedodd fod Tegeirian y Waun yn frodorol gyson ym mhob ardal. Ychwanegodd Evans nad yw hyn mwyach yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol (2007). Dywedodd ei fod wedi ei gyfyngu'n bennaf i ran dwyreiniol yr is-sir. Dengys y mapiau islaw fod hyn yn dal yn wir, ond gydag eithriad nodedig y tu allan i'r ardal honno yn Nhorfaen. Mae'r boblogaeth hon, a ganfuwyd yn 2015, ym Mlaenserchan ger Abersychan. Darganfuwyd poblogaeth newydd arall yn Nhyndyrn yn 2014.

Mae'r ddwy boblogaeth fwyaf, y ddwy gyda chynifer â 4,000 o sbigau blodau mewn blynyddoedd diweddar yng ngwarchodfeydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent yn Nolydd New Grove a Fferm Pentwyn.<sup>16,17</sup> Mae canolfan arall ymhellach i'r de, yn ardal Caerwent, lle mae safleoedd yn cynnwys Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Dolydd Brockwells a dir a gaiff ei reoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Er fod nifer o boblogaethau yn yr ardal hon, mae niferoedd y planhigion unigol yn fach o gymharu gyda New Grove a Phentwyn.




Andy Karran

*Dosbarthiad cofnodion  
Tegeirian y Waun ar draws  
Gwent Fwyaf (uchafswm 22  
cofnod/km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Tegeirian y  
Waun yn ôl degawd*




**Tueddiadau poblogaeth:** Mae arwyddion calonogol y gall y tegeirian hwn sefydlu, neu ail-sefydlu, mewn ymateb i reolaeth ffafriol. Gwelwyd niferoedd bach mewn caeau lle mae rheolaeth adferol yn agos at safleoedd sydd â phoblogaethau mawr, er enghraifft yng Nghomin Wysewood Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gwent, ger Fferm Pentwyn.<sup>17</sup>

**Gwarchodaeth:** Mae nifer o boblogaethau Gwent yn digwydd o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig: Dolydd Brockwells; Dolydd Dinham; Dolydd Cobblers Plain, Devauden; Dolydd Lower Nex, Devauden a Glastiroedd Fferm Pentwyn, Penallt.<sup>18,6</sup>

Mae Gwarchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Dolydd New Grove yn Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur yn ogystal â bod yn Ddôl Coroni Sir Fynwy. Gyda'i gilydd, mae safleoedd a warchodir (SSSI a SINC) yn cyfrif am 39% o gofnodion SEWBRc.

Yn ychwanegol, mae Tegeirian y Waun i'w chael yn Nol Wlyb Tryleg, sydd ar les i Grŵp Dolydd Sir Fynwy.<sup>19</sup> Mae hefyd i'w gweld yn rhai o'r dolydd mewn perchnogaeth preifat a gaiff eu rheoli gan aelodau o'r grŵp.

*Cofnodion Tegeirian y Waun o safleoedd a warchodir*



## Tegeirian Llydanwyrdd Bach *Platanthera bifolia* (L.) (Rich)

**Gwarchodaeth:** Dim

**Statws cadwraeth:** Bregus (DU)<sup>13</sup> Blaenoriaeth Adran 7 (Cymru)

**Data ar gael:** Gwael (18 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Tegeirian Llydanwyrdd Bach yn blanhigyn lluosflwydd oes hir gyda sbigyn tal o flodau gwyn. Mae i'w gael mewn ystod eang o gynefinoedd, yn cynnwys coetiroedd, rhostir, glaswelltir a hyd yn oed rai gwlypdiroedd tebyg i gyforgorsydd a chorsydd.<sup>20</sup> Er hyn bu dirywiad hirdymor ynddynt ers y 1930au: cafodd y Tegeirian Llydanwyrdd Bach ei gollu o tua 75% o'i gwmpas blaenorol yn Lloegr.<sup>20</sup> Credir bod y gostyngiad oherwydd newidiadau cynefin tebyg i orgysgodi, gwella amaethyddol ac ymlediad prysgwydd.




*Andy Karran*

**Rhagolygon:** Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd poblogaeth y Deyrnas Unedig yn parhau i ddirywio.<sup>13</sup> Mae Evans yn disgrifio'r dirywiad yng Ngwent fel 'remarkable', O gael ei ddisgrifio fel 'locally frequent' yn y 1970,<sup>5</sup> mae poblogaeth Gwent yn awr wedi ei cyfyngu i un safle<sup>5,10</sup> a chaiff ei ddsbarthu fel 'Prin yn Lleol' yn VC35.

**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Dim ond mewn un safle mae'r Tegeirian Llydanwyrdd Bach ar gael ar hyn o bryd – Planhigfa Hardwick/Slade Wood; er fod cofnodion o'r 1970au o tu fewn i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac o'r 1990au yn Swydd Gaerloyw, yn agos at y ffin.


Os ystyrir cofnodion hanesyddol, roedd y boblogaeth yn arfer bod ar hyd y ffin gyda Lloegr ac ar draws rhan ddeheuol Sir Fynwy.

*Cofnodion Tegeirian  
Llydanwyrdd Bach yng  
Ngwent Fwyaf (uchafswm  
dwysedd 15 cofnod /km<sup>2</sup>)*



*Cofnodion Tegeirian  
Llydanwyrdd Bach yn ôl  
degawd, yn cynnwys  
cofnodion hanesyddol*

- 1970-1979
- 1990-1999
- 2010-2019
- Historic



**Tueddiadau poblogaeth:** Os ystyrir cofnodion hanesyddol (37 cofnod ychwanegol yn dyddio'n ôl mor bell â 1850) cafodd cynifer â 23 monad eu defnyddio ar ryw adeg. Daw'r unig gofnodion o'r degawd diwethaf o Blanhigfa Hardwick/Slade Wood, er fod y diweddaraf o 2011.

**Gwarchodaeth:** Nid yw Planhigfa Hardwick/Slade Wood yn safle a warchodir, na chwaith y lleoliadau o fewn Bannau Brycheiniog gyda chofnodion hŷn. Pe canfyddid y Degeirian Lydanwyrdd Bach mewn unrhyw safle, yna dylai hyn gael ei ystyried yn awtomatig ar gyfer statws Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC),<sup>21</sup> er ei bod yn anodd penderfynu hyn os nad yw planhigion yn blodeuo'n rheolaidd.

## Clychlys Ymledol *Campanula patula* (L.)

**Gwarchodaeth:** Dim

**Statws cadwraeth:** MEWN PERYGL (DU)<sup>13</sup> MEWN PERYGL DYBRYD (Cymru) <sup>10</sup> Blaenoriaeth Adran 7 (Cymru)

**Data ar gael:** Gwael (20 cofnod)

**Cyd-destun:** Mae'r Clychlys Ymledol yn blanhigyn dwy-flynyddol gyda blodau porffor-glas siâp seren. Mae i'w gael ar lannau ac ymylon heulog yn arbennig yn ymyl coetiroed agored neu ymylon coetiroedd.

Gall yr had fyw'n hir iawn ond mae angen ymyrraeth i egino.<sup>22</sup> Credir y bu poblogaeth y Deyrnas Unedig yn


gostwng ers dechrau'r 1800au<sup>23</sup> ac mae wedi ei gyfyngu i'r Gororau yng Nghymru a'r West Midlands yn Lloegr.<sup>22</sup> Caiff ei ddisbarthu fel bod Mewn Perygl oherwydd y nifer isel o blanhigion sy'n parhau: amcangyfrifwyd mai dim ond 330 planhigyn oedd y boblogaeth yn 2005.<sup>13</sup>

**Rhagolygon:** Oherwydd y dirywiad hanesyddol a'r nifer isel iawn o blanhigion, ymddengys fod dirywiad parhaus a diflaniad maes o law o Went Fwyaf yn debygol, gan fod y Clychlys Ymledol wedi ei gyfyngu i un safle a dim ond dau blanhigyn. Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn awgrymu fod rhai poblogaethau yn annhebyg o adfer heb blannu ategol neu ail-gyflwyno.<sup>23</sup> Cafodd prosiectau diweddar yn Swydd Gaerloyw yn 2016<sup>24</sup> a Swydd Henffordd yn 2019<sup>25</sup> rywfaint o lwyddiant.



**Cwmpas Gwent Fwyaf:** Mae Gwent Fwyaf ar ymyl de-orllewinol cwmpas Clychlys Ymledol y Deyrnas Unedig. Mae'r clwstwr mwyaf o gofnodion o amgylch Gwarchodfa Natur Genedlaethol Fiddler's Elbow, a choetiroedd llai i'r dwyrain ohoni. Mae clwstwr llai o gofnodion yn Lydyart, i dde Trefynwy. Mae nifer o gofnodion ynysig ymhellach i'r de a'r gorllewin, ond mae'r rhain o gyfeiriadau grid a allai fod yn anghywir.



Cofnodion Clychlys Ymledol yng Ngwent Fwyaf (uchafswm dwysedd 10 cofnod /km<sup>2</sup>)



Cofnodion Clychlys Ymledol yn ôl degawd, yn cynnwys cofnodion hanesyddol (cyn 1970)






**Tueddiadau poblogaeth:** Os ystyrir cofnodion hanesyddol (18 cofnod ychwanegol yn mynd yn ôl mor bell â 1850), cafodd cynifer â 19 monad eu defnyddio ar ryw adeg, yn bennaf ar hyd y ffin gyda Lloegr. Dim ond deg monad sydd â chofnodion ar ôl 1970, a dim ond 1 cofnod o'r degawd diwethaf. Mae Evans<sup>5</sup> yn sôn am ddirywiad mwy diweddar, gan ddweud 'even the 8 tetrads of 1990 are now down to 3 tetrads, with only 1 plant in one of those sites'.

Er y bu poblogaeth o fwy na 100 planhigyn yn Lydart unwaith,<sup>10</sup> ymddengys yn debyg fod y boblogaeth yn awr wedi ei chyfyngu i un safle ger Fiddler's Elbow, lle gwelwyd dau blanhigyn yn 2018.

**Gwarchodaeth:** Daw ychydig dros 10% o'r cofnodion (2 gofnod) o fewn SAC Coetiroedd Dyffryn Gwy a NNR Fiddler's Elbow. Mae'n debyg fod hyn yn amcangyfrif rhy isel o warchodaeth, gan fod llawer o'r cofnodion mwy diweddar yn agos at SINC coetiroedd tebyg i High Meadows Wood, Reddings Enclosure a Lydart Orles Wood, a ddynodwyd ar gyfer eu statws Coetir Hynafol. Dylai unrhyw safle gyda Chlychlys Ymledol gael ei ystyried yn awtomatig i gael ei dethol fel Ardal o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC).<sup>21</sup>

*Cofnodion Clychlys Ymledol o safleoedd a warchodir.*



## Cyfeiriadau:

1. Antonelli A, Fry C, Smith RJ, Simmonds MSJ, Kersey PJ, Pritchard HW (gol.). 2020. State of the World's Plants and Fungi 2020. Royal Botanic Gardens, Kew. <https://doi.org/10.34885/172>
2. Evans T. 2007. The Churchyard Yews of Gwent: <https://www.ancient-yew.org/mi.php/the-churchyard-yews-of-gwent/94>
3. Plantlife, Wye Valley IPA: <https://www.plantlife.org.uk/uk/nature-reserves-important-plant-areas/important-plant-areas/wye-valley>
4. Plantlife, Brecon Beacons National Park IPA: <https://www.plantlife.org.uk/uk/nature-reserves-important-plant-areas/important-plant-areas/cliffs-brecon-beacons-national-park>
5. Evans T. 2007. Flora of Monmouthshire. The Chepstow Society.
6. BSBI. 2007. VC35 Monmouthshire Rare Plant Register Checklist: <https://database.bsbi.org/object.php?objectid=2cd4p9h.dnr59a&class=ChecklistInstance>
7. BSBI. 2013. VC41 Glamorgan Rare Plant Register checklist (draft): <https://database.bsbi.org/object.php?objectid=2cd4p9h.dnr59h&class=ChecklistInstance>
8. BSBI. Threatened Plants Project: <https://bsbi.org/threatened-plants-project> (agorwyd 05/05/2021).
9. Pescott OL, Walker KJ, Harris F, New H, Cheffings CM, Newton N et al. 2019. The Design, Launch and Assessment of a New Volunteer-Based Plant Monitoring Scheme for the United Kingdom'. PLoS ONE 14(4): e0215891.
10. Tyler SJ & Wood E. 2019. Monmouthshire County Rare Plant Register. BSBI a Cyfoeth Naturiol Cymru.
11. Byfield AJ & Wilson PJ. 2005. Important Arable Plant Areas: Identifying Priority Sites for Arable Plant Conservation in the United Kingdom. Plantlife International, Salisbury.
12. Shellswell CH. 2015. Wales' Important Arable Plants. Plantlife, Salisbury.
13. Cheffings CM & Farrell L (gol.), Dines TD, Jones RA, Leach SJ, McKean DR, Pearman DA, Preston CD, Rumsey FJ, Taylor I. 2005. The Vascular Plant Red Data List for Great Britain. (Species Status no. 7): 1–116. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough.
14. Chatters C. Species account in Stewart A, Pearman DA, Preston CD. 1994. Scarce Plants in Britain. Joint Nature Conservation Committee, Peterborough.
15. Wade AE. 1970. The Flora of Monmouthshire. Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd.
16. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent: <https://www.gwentwildlife.org>
17. Green T. Cyfathrebiad personol.
18. Cyfoeth Naturiol Cymru: <https://cyfoethnaturiol.cymru>
19. Monmouthshire Meadows Group: <https://monmouthshiremeadows.org.uk>
20. Species Fact Sheet: Lesser Butterfly-Orchid. Natural England and Plantlife, Salisbury.
21. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent. 2004. Guidelines for the Selection of Wildlife Sites in South Wales. Partneriaeth Safleoedd Bywyd Gwyllt De Cymru.
22. Spreading Bellflower. Plantlife, Salisbury: [https://www.plantlife.org.uk/application/files/2614/7913/4133/Brief20sheet20-20Spreading20bellflower20briefing\\_sheet.pdf](https://www.plantlife.org.uk/application/files/2614/7913/4133/Brief20sheet20-20Spreading20bellflower20briefing_sheet.pdf)
23. Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru: <https://botanicgarden.wales/science/saving-plants-and-fungi/conserving-welsh-plants-and-habitats/spreading-bellflower-campanula-patula/> (agorwyd 22/06/2020).
24. [https://plantlife.love-wildflowers.org.uk/about\\_us/blog/rare-spreading-bellflower?display=one](https://plantlife.love-wildflowers.org.uk/about_us/blog/rare-spreading-bellflower?display=one) (agorwyd 22/06/2020).

25. <https://www.ledburyreporter.co.uk/news/17834231.rare-blooms-frith/>(agorwyd 22/06/2020).
26. Dines T. 2007. A Vascular Plant Red Data List for Wales. Plantlife Wales.